**P-06-1287 Rhaid ymchwilio i benderfyniad Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro i gau'r feddygfa yng ngogledd Penarth a symud cleifion i feddygon teulu sydd ymhell i ffwrdd**

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Max Scott-Cook, ar ôl casglu 266 o lofnodion ar-lein ac 82 ar bapur, sef cyfanswm o 348 lofnodion.

**Geiriad y ddeiseb**:

Rydym am ddwyn i gyfrif swyddogion y Bwrdd Iechyd a gwleidyddion sydd wedi cynllwynio i gau'r feddygfa ar Heol Albert (yng ngogledd Penarth) a symud cleifion i feddygfeydd Sili a Dinas Powys, yn ogystal â gorlwytho meddygfa Stanwell (Penarth Healthcare) yn ddifrifol. Credwn fod yr Aelod o'r Senedd lleol Vaughan Gething yn gwybod am y cynllun a gallai fod wedi tynnu sylw'r Gweinidogion a'r comisiynwyr perthnasol ar gyfer Pobl Hŷn, Plant a Chenedlaethau'r Dyfodol at y pryderon i gynnal yr egwyddor o wasanaethau gofal iechyd yn agos i'r cartref. Mae'r system wedi ein siomi.

**Gwybodaeth Ychwanegol**:

Ar ôl cael rhybudd rai blynyddoedd yn ôl fod prydles y feddygfa ar fin dod i ben, gwrthododd Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro brynu'r adeilad ar Heol Albert. Cafodd cynllun y Bwrdd i ddarparu adeilad amgen newydd yn ardal Cogan, sydd ymhell i ffwrdd, ei wrthod yn gyhoeddus. Nid oedd y cynllun hwn yn bodloni'r egwyddor o ddarparu gwasanaethau iechyd yn agos i gartref.

Roedd cynlluniau olynol a luniwyd gan y Bwrdd Iechyd ar gyfer creu hwb llesiant yn ardal Cogan yn diystyru hygyrchedd gwael y safle. Roedd y dewis a wnaed o ran safle yn gwahaniaethu yn erbyn yr henoed a phobl â chyfyngiadau symudedd. Gwrthododd y Bwrdd helpu'r feddygfa ar Heol Albert i barhau i weithredu. Yn hytrach, cynigiodd gyllid i feddygfeydd yn Sili, Penarth a Dinas Powys, er mwyn iddynt allu ehangu a chymryd cyfrifoldeb dros y 7,000 o gleifion dan sylw. Ni wnaeth y Bwrdd Iechyd Prifysgol ymgynghori ar y cynllun hwn. Mae ansawdd y gofal a ddarperir ym meddygfa Stanwell (Penarth Healthcare) wedi gwaethygu ers i'r feddygfa gael ei gorlwytho gan gleifion. Credwn mai dim ond 7 meddyg teulu sydd ar gyfer

17,000 o gleifion. Penderfyniad y Bwrdd Iechyd i fynd ar drywydd eiddo (adeilad) newydd yn y lleoliad anghywir sydd ar fai.
Mae modd i'r Bwrdd gydnabod ei gamgymeriad o hyd, a phrynu Meddygfa Albert oddi wrth y datblygwr eiddo.

**Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad**

- De Caerdydd a Phenarth
- Canol De Cymru